Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llangelynnin
# Canolfan Gymdeithasol Henryd
# Ysgol Llangelynnin
# Henryd
# LL32 8YB

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016**

**gan**

**Dr Prydwen Elfed-Owens**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/05/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Llangelynnin, rhan o ddarpariaeth y Mudiad Meithrin ym mhentref gwledig Henryd, yn awdurdod lleol Conwy. Fe'i sefydlwyd yn 1995 ac mae wedi ei leoli ar dir yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg lleol.

Mae'r lleoliad ar agor pum pnawn yr wythnos ac wedi ei gofrestru ar gyfer pymtheg o blant. Yn ystod yr arolwg, un ar ddeg oedd yn bresennol, a dau ohonynt wedi eu hariannu gan yr awdurdod lleol. Mae'r nifer yn amrywio o sesiwn i sesiwn. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn wedi eu nodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oedd yr un plentyn o gefndir ethnig lleiafrifol ac mae bron pob un yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf.

Mae'r arweinydd wedi bod yn y swydd ers Ionawr 2009. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Ionawr 2014 a chan Estyn ym mis Mai 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn anfoddhaol. Cryfderau'r lleoliad yw:

- bod y plant yn ymgartrefu'n gyflym ac yn teimlo'n ddiogel
- bod y plant yn hapus ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad
- bod y rhieni yn gefnogol
- bod cyfleoedd da i'r plant ddysgu am fwyta'n iach

Fodd bynnag, mae'r meysydd sydd angen eu gwella yn gorbwyso cryfderau'r lleoliad oherwydd:

- nad yw'r ddarpariaeth bob amser yn adlewyrchu ymarfer disgwyliedig y Cyfnod Sylfaen
- nad yw ymarferwyr yn darparu digon o gyfleoedd i blant feddwl drostynt eu hunain, i ddatrys problemau ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol
- nad yw ymarferwyr yn cynnig digon o gyfleoedd pwrpasol i blant ddatblygu sgiliau cynnar llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- nad yw'r cynllunio yn ddigon trwyadl nac yn cyfatebu'n ddigonol i anghenion plant unigol
- nad yw plant yn cael eu herio'n ddigonol, yn enwedig y rhai mwy abl
- nad yw ymarferwyr yn defnyddio gweithdrefnau asesu'n ddigon da i hybu'r camau nesaf yn dysgu'r plant
- nad yw ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn ddigon da
- nad yw'r gweithdrefnau asesu newydd wedi cael digon o amser i effeithio'n gadarnhaol ar safonau plant nac ar y ddarpariaeth
- bod materion ynglŷn â lles a hylendid sy'n achosi pryder ac maent angen sylw

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon y lleoliad i wella yn anfoddhaol. Y cryfderau yw:

- bod arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel a deniadol lle mae plant yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda
- bod gan y lleoliad adnoddau addas i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen
- bod partneriaethau allanol wedi gwella yn ddiweddar

Fodd bynnag, mae'r meysydd pwysig sydd angen eu gwella yn gorbwyso cryfderau'r lleoliad oherwydd:

- nad yw arweinwyr yn darparu'r lleoliad gyda chyfeiriad strategol pwrpasol ac nad yw eu dealltwriaeth o’r broses gwella ansawdd yn ddigon da
- nad yw arweinwyr wedi gweithredu amcan allweddol eu Datganiad Diben i ddarparu pob plentyn ifanc gyda chyfle i fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg
- nad yw’r lleoliad wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'r arolygiad Estyn blaenorol
- nad oes gan y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'i rôl a’i chyfrifoldeb
- nad yw ymarferwyr yn mynychu sesiynau hyfforddi yn ddigon rheolaidd
- nad yw cyngor a chyfarwyddyd diweddar iawn yr awdurdod lleol a’r Mudiad Meithrin wedi cael digon o amser i sicrhau gwelliant

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd pwrpasol a chyson i blant ddatblygu sgiliau cynnar llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y chwe maes dysgu yn systematig

A2 Gwella datblygiad sgiliau iaith Gymraeg y plant

A3 Gwella cynllunio drwy gynnwys yr holl ymarferwyr yn y broses a sicrhau bod y gweithgareddau yn heriol ac yn cyfateb i allu’r plant

A4 Cryfhau'r broses asesu drwy gynnwys yr holl staff a defnyddio'r wybodaeth a gesglir i ddatblygu dysgu'r plant

A5 Datblygu rôl strategol yr arweinydd a sicrhau bod y pwyllgor rheoli yn ymwybodol o'u dyletswyddau

A6 Sicrhau bod y broses hunan arfarnu yn fwy cynhwysol ac yn nodi agweddau i'w gwella yn fwy trylwyr

A7 Sicrhau bod yr holl staff yn mynychu hyfforddiant, ac yn cael cyfleoedd i arsylwi arfer dda er mwyn gwella eu dealltwriaeth o ddarpariaeth, addysgu ac arweinyddiaeth

A8 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a amlygwyd yn ystod yr arolwg

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Rwyf fi o'r farn, ac mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi yn cytuno, bod angen gwelliant â ffocws mewn perthynas â'r lleoliad hwn. Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad yn dymhorol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Ddim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Anfoddhaol**

Mae ymarferwyr yn darparu plant gydag ystod briodol o brofiadau dysgu ar draws y chwe maes dysgu o dan do ac yn yr awyr agored. Nid yw'r plant yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth, er enghraifft drwy wneud dewisiadau ac i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain i broblemau.

At ei gilydd, nid yw plant yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau cynnar yn llythrennedd, rhifedd a TGCh yn systematig. Mae ymarferwyr yn annog plant i ganu ystod o ganeuon a rhigymau ac yn hybu diddordeb mewn llyfrau trwy ddarparu ardal glyd i wrando ar storïau. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i blant ddatblygu sgiliau darllen cynnar. Mae cyfleoedd priodol i blant i ddatblygu sgiliau gwneud marciau gan ddefnyddio ystod o wahanol gyfryngau fel pensiliau, pinnau ysgrifennu a sialc. Er enghraifft, maent yn gwneud marciau a phatrymau ar garreg fawr yn yr ardal allanol. Serch hynny, nid yw ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael digon o gyfleoedd i ymarfer gwneud marciau ar draws pob maes dysgu.

Mae'r cynllunio ar gyfer sgiliau rhifedd plant mewn cyfnod cynnar o ddatblygiad. Mae ymarferwyr yn darparu rhai cyfleoedd gwerthfawr i blant i gyfrif, didoli a chyfateb gwrthrychau. Er enghraifft, wrth roi hwyaid yn eu trefn mewn cafn dŵr ac wrth osod pigau bach, canolig a mawr ar dempled o gymeriad allan o lyfr stori adnabyddus. Er bod yr ardal awyr agored wedi ei gwella'n ddiweddar, nid yw'n darparu digon o gyfleoedd i blant adnabod rhifau mewn cyd-destunau gwahanol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau TGCh y plant yn anfoddhaol. Er bod y lleoliad wedi cyflwyno cyfrifiadur tabled ar gyfer defnydd y plant yn ddiweddar, nid yw'r staff yn annog y plant i ddefnyddio TGCh yn ddigonol yn eu chwarae ar draws y meysydd dysgu.

Mae'r lleoliad yn cynllunio cyfleoedd priodol i blant ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru, er enghraifft pan fyddant yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi.  Mae'r holl ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o Gymraeg achlysurol drwy roi cyfarwyddiadau a gorchmynion syml.

Fodd bynnag, mae defnydd yr ymarferwyr o'r Gymraeg a'u hyder a'u dealltwriaeth eu hunain o'r iaith yn gyfyng.  Nid ydynt yn cynllunio dilyniant sgiliau yn y Gymraeg yn ddigon penodol.  Felly nid yw'r plant yn ddigon cyfarwydd â'r iaith i ymateb yn briodol yn y sesiynau stori.  Nid yw ymarferwyr yn cynnig her ddigonol i blant sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ac mae hyn yn amharu ar ddatblygiad eu hiaith.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau'r plant ymhellach.  Er enghraifft, drwy ymweld â'r llyfrgell leol i wrando ar storïau a mynd ar deithiau cerdded o gwmpas yr ardal leol i ddysgu am y byd y maent yn byw ynddo.  Mae cyfleoedd addas i blant ddysgu am ddiwylliannau eraill, fel y Flwyddyn Newydd Tseiniaidd.

**Addysgu:  Anfoddhaol**

Mae'r holl ymarferwyr yn creu perthynas positif gyda'r plant ac, o ganlyniad, mae plant yn ymgartrefu'n gyflym, yn teimlo'n ddiogel ac yn ymddiried yn yr oedolion. Fodd bynnag, nid yw dealltwriaeth ymarferwyr o ofynion y Cyfnod Sylfaen yn ddigon cadarn.  O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn cael eu harwain gan oedolion ac nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i'r plant weithio'n annibynnol a dilyn eu diddordebau eu hunain.  Nid yw'r staff yn annog y plant i ddatblygu eu hannibyniaeth drwy gymryd cyfrifoldeb i dacluso ar ôl gweithgaredd neu ar ôl amser byrbryd.

Mae ymarferwyr yn defnyddio ystod gyfyngedig o strategaethau addysgu ac nid ydynt bob amser yn denu na'n herio plant yn ddigonol.  Nid ydynt ychwaith yn ymestyn dysgu a diddordeb y plant yn ddigon da drwy holi a thrafod priodol.  Yn ogystal â hyn, mae cyflymder y sesiynau yn araf iawn ac, o ganlyniad, mae'r mwyafrif yn colli diddordeb ac yn aflonyddu.  Nid yw ymarferwyr yn rheoli'r ymddygiad hwn yn ddigon da.  Mae hyn yn fwy amlwg pan fydd y grŵp cyfan yn gwrando ar stori neu yn ystod eu hamser byrbryd.  Yn gyffredinol, nid yw ymarferwyr yn gwneud digon o ddefnydd o'r iaith Gymraeg ac yn troi at siarad Saesneg gyda'r plant.  Nid yw ymarferwyr yn modelu iaith yn ddigon cadarn ac nid yw safonau llafar plant yn y Gymraeg yn ddigon da.

Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi mabwysiadu gweithdrefnau asesu'r awdurdod lleol. Mae ymarferwyr yn awr yn asesu pob plentyn ar gychwyn yn y lleoliad ac yn gwneud arsylwadau dyddiol a chadw cofnodion ar ddatblygiad yr holl blant yn y chwe maes dysgu.  Mae hyn yn dechrau helpu ymarferwyr i nodi pa sgiliau sydd angen i blant eu datblygu.  Fodd bynnag, nid yw hyn eto wedi cael amser i effeithio ar gynllunio'r lleoliad nac ar gynnydd plant.  Nid yw ymarferwyr eto'n defnyddio asesu i gynllunio gweithgareddau sy'n atgyfnerthu ac yn ymestyn dysgu'r plant yn ddigon effeithiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae ymarferwyr yn cymryd gofal da o blant wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad. Maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta a mwynhau byrbrydau iach. Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dyddiol i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ond mae hyn yn gyfyngedig oherwydd prinder gofod i redeg yn rhydd.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blentyn yn y lleoliad ag anghenion dysgu ychwanegol. Serch hynny, mae gan y lleoliad systemau a pholisïau addas i nodi anghenion ychwanegol plant yn fuan.

Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad ysbrydol y plant yn briodol, gan feithrin ymdeimlad o ryfeddod trwy astudio natur a thyfu blodau a phlanhigion yn yr ardal allanol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad diwylliannol yn briodol.

Nid yw ymarferwyr bob amser yn hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol y plant yn ddigon da. Nid ydynt yn sefydlu rheolau a gweithdrefnau clir i reoli ymddygiad plant yn effeithiol. Nid yw’r drefn ddyddiol, fel amser cylch ac amser byrbryd bob amser yn darparu cyfleoedd digon gwerthfawr i blant ddatblygu sgiliau pwysig fel cydweithredu. Nid yw ymarferwyr yn annog plant i ddatblygu eu hannibyniaeth; er enghraifft, drwy gymryd cyfrifoldeb i dacluso ar ôl gweithgareddau neu amser byrbryd.

Mae plant yn datblygu ymwybyddiaeth addas o arferion a chredoau eraill; er enghraifft, drwy ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a thrwy chwarae a doliau o dras ethnig. Mae cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd yn llai datblygedig.

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i sicrhau diogelwch plant ac mae’r gweithdrefnau wedi'u hen sefydlu. Mae prosesau priodol ar gyfer gwirio addasrwydd staff ac eraill sydd mewn cysylltiad â phlant. Mae ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant diogelu plant yn ddiweddar a thrwy hynny’n deall eu cyfrifoldebau. Felly mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Anfoddhaol**

Mae ymarferwyr yn llwyddo i greu awyrgylch croesawgar sy'n galluogi'r rhan fwyaf o blant i ymgartrefu'n gyflym. Mae’r arddangosfeydd yn lliwgar ac yn cynnwys tystiolaeth o waith a gweithgareddau a wnaed yn y gorffennol. Fodd bynnag, nid ydynt yn arddangos a dathlu gwaith y plant yn ddigonol.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos gofalgar drwy weithgareddau dyddiol ac agwedd y staff. Mae staff yn adnabod plant yn dda ac yn cydnabod eu hunigoliaeth.

Mae'r adeilad yn ddiogel ac wedi ei gynnal yn dda. Ers yr arolwg diwethaf, mae'r ymarferwyr wedi gwella cynllun yr ardal awyr agored. Maent wedi ychwanegu adnoddau addas: er enghraifft, cafnau dŵr a thywod, siglen, a charreg fawr lyfn i blant arbrofi gyda'u sgiliau ysgrifennu cynnar. Serch hynny, er bod y plant yn treulio

rhan fwyaf o'u hamser yn yr ardal allanol, nid yw'r ymarferwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r cyfleusterau ac nid oes diben clir i lawer o'r gweithgareddau.

Mae'r ardal dan do braidd yn gyfyng oherwydd dodrefn ac nid yw'n cael ei defnyddio bob amser i'r fantais orau.  Yn ddiweddar, mae ymarferwyr wedi creu ardaloedd dysgu newydd.  Mae’r rhain yn cynnwys cornel cartref ac ardal wedi ei garpedu ar gyfer gwrando ar storïau ac edrych ar lyfrau.  Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith hyn ar y ddarpariaeth ac ar safonau.  Mae'r ystafell yn fach ac mae'r lefelau sŵn ar adegau yn annerbyniol.  Mae hyn yn effeithio'n sylweddol ar ymddygiad heriol ychydig o blant a thrwy hynny’n amharu ar ansawdd addysgu’r staff.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio adnoddau cymunedol yn addas trwy drefnu ymweliadau â'r llyfrgell leol a theithiau cerdded yn y cyffiniau o bryd i’w gilydd i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant.

Hysbyswyd y pwyllgor rheoli yn ystod yr arolwg am faterion yn ymwneud ag iechyd sydd angen sylw brys.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae arweinwyr wedi creu awyrgylch cartrefol lle mae plant yn hapus.  Serch hynny, mae gan y lleoliad ddiffyg cyfeiriad strategol sydd yn llesteirio ‘i ddatblygiad.  Nid yw eu gweledigaeth yn canolbwyntio digon ar wella dysgu a deilliannau lles.  Felly, ar y cyfan buont yn aflwyddiannus o ran gwneud a chynnal gwelliannau.  O ganlyniad, nid ydynt wedi bodloni’r rhan fwyaf o'r argymhellion o'r arolwg blaenorol.  Nid yw arweinwyr yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio a’i hyrwyddo'n gyson yn ystod y sesiynau.

Nid yw arweinwyr wedi sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.  Nid yw pob un o'r ymarferwyr yn cael ei annog yn ddigonol i gymryd cyfrifoldeb am feysydd allweddol na chymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ac addysgu.  O ganlyniad, nid ydynt yn gweithio'n ddigon da fel tîm sy'n canolbwyntio ar ddysgu plant.

Nid yw'r pwyllgor rheoli yn derbyn adroddiadau cynnydd gan arweinwyr ac ychydig iawn o drafodaeth sydd ar osod cyfeiriad strategol.  Maent gan fwyaf yn cyfarfod yn anffurfiol ac, o ganlyniad, nid ydynt yn meddu ar wybodaeth ddigon cadarn o berfformiad y lleoliad.  Mae arweinwyr yn gweithredu rhai blaenoriaethau cenedlaethol a'r awdurdod lleol yn dda; er enghraifft fel bwyta'n iach.  Fodd bynnag, nid ydynt yn canolbwyntio digon ar ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh plant yn systematig.  Nid yw arweinwyr yn ddigon ymwybodol o bolisi iaith y Mudiad Meithrin a sut mae hyn yn effeithio ar gyfrwng iaith y lleoliad.

**Gwella ansawdd:  Anfoddhaol**

Nid yw'r lleoliad wedi sefydlu diwylliant o hunan arfarnu yn llwyddiannus.  Mae'r broses yn rhy ddibynnol ar yr arweinydd ac nid yw'n cynnwys pobl eraill yn ddigonol.

Mae diffyg ymgynghori ystyrlon gyda rhieni a'r ysgol gynradd leol. O ganlyniad, nid yw'r broses yn ddigon trylwyr ac nid yw'n arwain at adroddiad sy'n dangos bod yr arweinwyr yn gwybod cryfderau a gwendidau'r lleoliad yn dda. Mae'r adroddiad yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n ddigon cywir, yn enwedig yn y dyfarniadau ar ddarpariaeth ac arweinyddiaeth. Yn hanfodol, nid yw'r adroddiad yn nodi meysydd penodol i'w datblygu yn ddigon da. Felly nid oes cysylltiad amlwg rhwng deilliannau'r broses hunan arfarnu a'r targedau yn y cynllun datblygu.

Mae ffocws ar ddatblygu sgiliau yn y cynllun gwella. Serch hynny, nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar wella safonau cyflawniad ac nid oes yna dargedau clir. Nid yw adnoddau ariannol yn cysylltu â blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Nid oes gweithdrefnau adolygu i werthuso'r hyn a gyflawnwyd o flwyddyn i flwyddyn.

Nid yw arweinwyr wedi sicrhau digon o gynnydd tuag at gyflawni y rhan fwyaf o'r argymhellion o'r arolwg blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaethau: Digonol**

Mae gan y lleoliad bartneriaeth briodol â rhieni a gofalwyr ac maent hwy yn gwerthfawrogi'r cyswllt anffurfiol gyda staff. Mae'r arweinydd yn cyfarch pob plentyn wrth iddynt gyrraedd ac mae ar gael bryd hynny i drafod unrhyw faterion gyda'r rhieni. Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol cyn i'w plentyn ddechrau yn y lleoliad. Maent yn derbyn enghreifftiau o waith eu plentyn yn rheolaidd yn ystod y tymor. Fodd bynnag, er bod rhieni yn derbyn rhywfaint o wybodaeth berthnasol yn dymhorol nid ydynt yn derbyn awgrymiadau am yr hyn y gallant hwy ei wneud i helpu eu plentyn gartref.

Mae’r trefniadau pontio gyda'r ysgol gynradd leol yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n dda wrth drosglwyddo. Serch hynny, nid yw'r bartneriaeth hon yn canolbwyntio cystal ar rannu gwybodaeth am ddatblygiad a dilyniant pob plentyn.

Mae'r lleoliad yn defnyddio cysylltiadau cymunedol addas i gefnogi dysgu plant. Er enghraifft, maent wedi sefydlu cyswllt gyda'r llyfrgell leol ar gyfer darllen stori. Mae'r plant yn cerdded o gwmpas y pentref yn achlysurol i sylwi ar wahanol agweddau o fywyd y pentref ac arsylwi newidiadau tymhorol.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau cefnogol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog y Mudiad Meithrin. Mae'r ddwy wedi gwneud ymweliadau mynych mewn cyfnod byr iawn ers iddynt dderbyn cyfrifoldeb am gefnogi’r lleoliad. Maent wedi cyflwyno ystod eang o gyngor ac awgrymiadau. Serch hynny, mae'r systemau a'r gweithdrefnau newydd yn ddiweddar iawn ac mae eu heffaith yn gyfyngedig ar y ddarpariaeth, hunan arfarnu ac arweinyddiaeth ar hyn o bryd.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan y lleoliad gyflenwad digonol o ymarferwyr sy’n meddu cymwysterau addas. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud defnydd digon da o'r holl staff i gefnogi addysgu a dysgu. Nid ydynt yn defnyddio ymarferwyr yn ddigon pwrpasol eto i sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, yn aml nid ydynt yn datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd plant nac yn eu herio yn ddigon da.

Nid yw ymarferwyr yn adlewyrchu ar eu perfformiad eu hunain yn ddigon da.  Nid yw'r lleoliad wedi sicrhau bod anghenion proffesiynol y staff yn cael eu bodloni yn ddigonol.  Mae'r arweinydd wedi ymweld â lleoliadau eraill i arsylwi eu hymarfer, ond nid yw ymarferwyr yn mynychu cyrsiau hyfforddi proffesiynol yn rheolaidd.  O ganlyniad, nid yw ymarfer Cyfnod Sylfaen wedi ei ddatblygu'n ddigon effeithiol.

Mae gallu'r ymarferwyr yn yr iaith Gymraeg yn amrywio.  Nid ydynt yn darparu strwythur digonol i alluogi plant i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a defnyddio'r iaith yn bwrpasol.

Nid yw prosesau'r lleoliad ar gyfer gwerthuso staff yn cael eu gweithredu'n gyson. Mae adborth diweddar i staff yn rhy ddisgrifiadol.  Nid yw'r meysydd a nodwyd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar ofynion y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r gan y lleoliad adnoddau priodol i gwrdd ag anghenion y Cyfnod Sylfaen.  Mae arweinwyr wedi dyrannu cyllid addas i wella adnoddau yn yr ardal allanol yn dilyn yr arolwg diwethaf ac yn ddiweddar i wella sgiliau TGCh.  Fodd bynnag, mae gwendidau yn y modd y mae arweinwyr yn defnyddio'r adnoddau i gefnogi'r addysgu a'r dysgu.  Nid yw arweinwyr yn meddu ar brosesau effeithiol ar gyfer rheoli ac adolygu effaith gwariant.

O ystyried y gwendidau yn y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth, mae'r lleoliad yn darparu gwerth anfoddhaol am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 15 | 12 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 15 | 14 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 15 | 13 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 87% | 13% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 15 | 13 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 87% | 13% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 18% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 14 | 9 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 15 | 11 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 14 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 15 | 14 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 12 | 11 | 1 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child’s progress. | 15 | 11 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 5% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 15 | 13 | 1 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo’n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 87% | 7% | 7% | 0% | | |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 2 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 15 | 13 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 87% | 13% | 0% | 0% | | |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 13 | 6 | 7 | 0 | 0 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 46% | 54% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 15 | 12 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

# Atodiad 2

## Yr Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| Dr Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Cofnodol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |